# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 16 Rhagfyr 2025

Amser: 09.00 - 09.46

# Preifat, Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Paul Davies AS<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Steffan Lewis (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Julian Luke, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Marc Wyn Jones, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Catrin Davies, Llywodraeth Cymru<br>Anthony Cooper, Llafur Cymru<br>Jennifer Ramsay, Ceidwadwyr Cymreig<br>Francess Ifan, Plaid Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds AS a David Rees AS.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

<u>Dydd Mawrth</u>

Nododd y Pwyllgor Busnes y newid a ganlyn:

- ~~Y penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)~~ —tynnwyd yn ôl

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.15pm.

<u>Dydd Mercher</u>

Gofynnodd y Ceidwadwyr Cymreig i'r Pwyllgor Busnes gyflwyno cynnig i Mark Isherwood AS gymryd lle Samuel Kurtz AS fel aelod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Nododd y Pwyllgor Busnes y newid a ganlyn:

- <u>Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor (5 munud)</u>

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.05pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid a ganlyn i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 13 Ionawr 2026**

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Pwysau'r Gaeaf ar y GIG (45 munud)

**Dydd Mawrth 20 Ionawr 2026**

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Amseroedd aros y GIG (45 munud)
- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 (5 munud)
- Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Disgowntiau, Diystyriadau ac Esemptiadau) (Cymru) 2026 (15 munud)
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darparu Gwybodaeth am Newidiadau mewn Amgylchiadau) (Cymru) 2026 (10 munud)
- Rheoliadau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2025 (5 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Dywedodd Heledd Fychan y byddai'n debygol y bydd diddordeb sylweddol gan yr Aelodau mewn siarad ar y ddadl ar y ddeiseb ynghylch Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol

ar 14 Ionawr, ac y gallai'r 30 munud sydd wedi'u neilltuo ar hyn o bryd fod yn annigonol. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn yr amser a drefnwyd ar gyfer y ddadl i 60 munud.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 14 Ionawr 2026 -**

- Dadl ar ddeiseb P-05-1555 Adolygu'r holl ganllawiau ar gludiant rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer Cymru gyfan. Mynediad am ddim i addysg (~~30~~ 60 munud)

**Dydd Mercher 28 Ionawr 2026 -**

- Dadl Aelod o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer: Mike Hedges AS (Dwyrain Abertawe) (30 munud)

Hysbyswyd y Rheolwyr Busnes bod y Swyddfa Gyflwyno bellach wedi cynnal y balot ar gyfer Dadleuon Byr o fis Ionawr 2026, a bod y ddadl gyntaf ar 14 Ionawr wedi'i dyrannu i Adam Price AS.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Trafodion Cyfnod 2 Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)

Trafododd y Pwyllgor Busnes yr opsiynau ar gyfer dyrannu dyddiadau penodol i Bwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau ar gyfer trafodion Cyfnod 2, a chytunodd i ddyrannu dydd Iau 12 Chwefror a dydd Gwener 13 Chwefror, pe bai angen, at y diben hwnnw.

Nododd y Trefnydd yr anawsterau a gafodd y Pwyllgor oherwydd terfynau amser Cyfnod 1 a dywedodd fod y Llywodraeth yn fodlon ymestyn y terfyn amser tan 16 Ionawr, gyda newid o ganlyniad i'r ddadl Egwyddorion Cyffredinol, pe bai Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau yn ystyried hynny'n ddefnyddiol. Dywedodd y Llywydd y byddai hyn yn cael ei gyfathrebu i'r Pwyllgor, ond dywedodd ei fod yn annhebygol o gynorthwyo pwyllgorau mor hwyr â hyn o ystyried y byddent yn cytuno ar adroddiadau yr wythnos hon. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i fwrw ymlaen i ddyrannu slotiau cyfarfodydd penodol ar 12 a 13 Chwefror i Bwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, ac ystyried yr amserlen ar gyfer y Bil ymhellach pe bai'r Pwyllgor hwnnw'n gofyn iddo wneud hynny.

Trafododd y Pwyllgor Busnes hefyd ohebiaeth ar wahân gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i gynnal cyfarfod ychwanegol ddydd Mercher 17 Rhagfyr er mwyn ystyried ei adroddiad ar y Bil. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i’r cais.

### 4.2 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes ddiweddariad gan y Trefnydd a chytunodd i gyfeirio'r Memorandwm Atodol ar y Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd) at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno adroddiad ar yr holl Femoranda ar y Bil hwn erbyn 27 Chwefror 2026.

Dywedodd y Trefnydd wrth y Rheolwyr Busnes fod y Bil Cyllid (Rhif 2) wedi'i gyflwyno ar 5 Rhagfyr 2025 a bod disgwyl i Femorandwm gael ei osod yn fuan. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio’r Memorandwm rhagblaen at y Pwyllgor Cyllid a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno adroddiad erbyn 30 Ionawr 2026.

Nododd y Pwyllgor Busnes hefyd ddiweddariad llafar gan y Trefnydd y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried diwygiadau posibl i'r Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), ac y byddai'n cyflwyno unrhyw Femorandwm / Femoranda atodol angenrheidiol cyn gynted â phosibl.

## 5 Gwaith Gweithdrefnol

### 5.1 Newidiadau drafft i Ganllawiau ar y modd priodol o gynnal busnes y Senedd – cwestiynau llefarwyr

Nododd y Pwyllgor Busnes y diwygiadau arfaethedig i'r adran berthnasol o'r *Canllawiau ar y modd priodol o gynnal busnes y Senedd,* gyda'r bwriad o roi effaith i newidiadau i gwestiynau llefarwyr y cytunwyd arnynt ar 9 Rhagfyr. Dywedodd y Llywydd y bydd y Canllawiau diwygiedig ar waith cyn y Cyfarfod Llawn cyntaf yn 2026.

### 5.2 Llythyr gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad mewn perthynas â'i adroddiad ar ddatganiadau o fuddiant

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a'r hysbysiad ymlaen llaw a ddarparwyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o argymhellion ar gyfer newidiadau i Reolau Sefydlog y mae'n bwriadu eu gwneud ym mis Ionawr. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ystyried cyngor pellach ar y cynigion yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

### 5.3 Busnes Seneddol yn y Seithfed Senedd

Rhoddodd y Rheolwyr Busnes adborth gan eu grwpiau ar yr opsiynau amserlen lefel uchel ar gyfer Busnes Seneddol yn y Seithfed Senedd, a chytunodd i ofyn i swyddogion baratoi opsiwn wedi'i fireinio o amserlen tair wythnos i'w ystyried yn fanwl yn y Flwyddyn Newydd.

## 6 UFA

Yn dilyn cynnydd diweddar yn y nifer o Aelodau sy'n ceisio pleidleisio o bell yn y Cyfarfod Llawn heb roi hysbysiad ymlaen llaw yn unol â'r Canllawiau ar Drafodion Rhithwir a Hybrid, dywedodd y Llywydd ei bod yn bwriadu gorfodi'r Canllawiau yn llym o ddechrau 2026.

Trafododd y Pwyllgor Busnes bryderon ynghylch rhai elfennau o'r diwylliant sydd wedi codi mewn perthynas ag Aelodau'n mynychu'r Cyfarfod Llawn yn y cnawd ond yn dychwelyd adref i bleidleisio o bell. Trafododd y Rheolwyr Busnes hefyd y manteision sydd wedi deillio o'r hyblygrwydd cynyddol a ddarperir i'r Aelodau o ganlyniad i gyfranogiad o bell a phleidleisio o bell, gan gynnwys mewn perthynas â chynhwysiant a chefnogi Aelodau â chyfrifoldebau gofalu, wedi'u cydbwyso â heriau ynghylch ymarferoldeb cadw'r darpariaethau presennol yng ngoleuni'r cynnydd ym maint y Senedd o fis Mai 2026.

Trafododd y Rheolwyr Busnes sawl ffordd bosibl y gellid addasu arferion ynghylch pleidleisio o bell, a chytunwyd i ystyried y materion gyda'u grwpiau ac i ddychwelyd i ystyried opsiynau manwl mewn cyfarfod dilynol.